

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 27 Hydref 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, A. Mummery, H. Huws, G. Parry, Meirion Jones, B. Jones, , Mervyn Jones, E. Parry, D. James, G. C. Jones
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: D. Williams, A. Williams,
Cychwynnwyd gan A. Jones yn croesawu D. James i'r Cyngor Bro fel aelod newydd

2. Datganiadau Diddordeb.

- 2.1 Mi ddatganwyd diddordeb gan B. Jones yn eitem 12.4
- 2.2 Mi ddatganwyd diddordeb gan A. Jones a G. Parry yn eitem 13.12

3. Cyfrifon mis Hydref 2015

- 3.1 J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

4. Materion y Cyngor Sir

- 4.1 J. Evans yn nodi fod hi'n debyg fod y peilonau ddim am fynd dros Blas Newydd. Meirion Jones yn ychwanegu mai'r argraff sydd wedi ei roi yw mai ymarfer angenrheidiol yw'r ymgynghoriadau a nad yw'r Grid Cenedlaethol i weld yn cymryd sylw o'r gwrthwynebiadau i'r peilonau. Efallai bydd angen ystyried cwyno i gorff uwch na'r Grid Cenedlaethol.
- 4.2 A. Mummery yn cadarnhau for Ieuan Williams yn edrych i gynnal sesiynau ymgysylltu gyda Chynghorau Cymuned ar Gyllid y Cyngor Sir am y flwyddyn nesaf. Cytunwyd i wahodd i gyfarfod arbennig i aelodau'r Pwyllgor Cyllid ar 1af Rhagfyr 2015, gyda gwahoddiad agored i aelodau eraill y Cyngor Bro.
- 4.3 Meirion Jones yn cadarnhau fod yr ymgynghoriad allan ar lyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 22 Medi 2015

- 5.1 J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

6. Materion yn codi

- 6.1 Ysgol Feithrin - A. Mummery yn nodi fod diddordeb gan Brifysgol Fangor mewn llogi ystafell yn yr Ysgol Feithrin. J. Roberts n cynnig, A. Mummery yn eilio rhoi caniatâd. Nodwyd fod angen trafod trefniadau'r Ysgol Feithrin yng nghyfarfod Amgylchedd ac Eiddo.
- 6.2 Twr Marcwis - Cyngor Bro heb dderbyn diweddariad pellach. Clerc i ymholi os yw'r arolygon wedi'i wneud
- 6.3 Plac ar dy Kyffin Williams -Pat West wedi cadarnhau nid oes bwriad gan CSYM osod plac arall i Kyffin Williams. Cytunwyd i ofyn i'r Cyngor Sir ble maen nhw yn archebu placiau i fedru ystyried gosod un ein hunain.
- 6.4 Grid Cenedlaethol - H. Huws yn nodi fod cwmpas 750 o lythyrau deiseb wedi'i derbyn gan drigolion y pentref.
- 6.5 Bwrdd Iechyd - A. Mummery wedi trafod gyda Linda West a tydi hi dal ddim yn medru cael ymateb gan ei uwch-swyddogion. G. C. Jones yn cynnig, Meirion Jones yn eilio bod y Cyngor Bro yn mynd at y wasg oherwydd y diffyg ymateb gan y Bwrdd Iechyd.
- 6.6 Llwybr beicio - Cyngor Sir am yrru swyddog allan i arolygu'r safle a rhoi ymateb ar ôl i hynny gael ei wneud.
- 6.7 Cysgodfa Bws Plas Garnedd - Cytunwyd i'w rhoi ar gyllideb 2016.17.
- 6.8 Maes Amlbwrpas - Hysbyseb i fod ym Mhapur Menai Mis Tachwedd
- 6.9 Mainc Newydd - A. Jones yn nodi fod un o feinciau yn y maes chwarae angen sylw. Cytunwyd i ofyn i Andre Le Cras i weithredu arno.
- 6.10 Grant Ymddiriedolaeth Ynys Môn - Nodwyd fod yr ymgyrch Neuadd Goffa wedi bod yn aflwyddiannus gyda chais am y grant. Cytunwyd bod angen ail-edrych ar sut fydd y costau byr dymor yn cael eu cyfarfod cyn gwneud cais llawn derfynol.

6.11 A. Jones ac G. Parry wedi cyfarfod a rheolwraig Pringles. Caniatad mewn egwyddor wedi derbyn i osod coeden Nadolig wrth y maes parcio yn amodol ar greu asesiad risg ar ei gyfer.

6.12 To fflat y Neuadd Goffa - Andre Le Cras am wneud gwaith cynnal ar y to a fyddai'n rhagorol yn fyrdymor.

7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Fynwent 13 Hydref 2015

7.1 G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

8. Materion yn codi o'r cofnodion

8.1 G. Parry yn dal i chwilio am gwmni sydd yn gwerthu neu greu marciwr ar gyfer plotiau. G. Parry a Chlerc i wneud ymholiadau pellach.

9. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid 2015

9.1 A. Mummery yn cynnig, M. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

10. Materion yn codi o'r cofnodion

10.1 Clwb Snwcer - Cytunwyd i ddiwygio cofnod 8.1 o gyfarfod Cyngor Bro 22 Medi 2015 fel sydd wedi cytuno yn Cyfarfod Pwyllgor Cyllid 13 Hydref 2015. Hynny yw peidio archebu gwresogyddion newydd am ni fyddai'r rhai oedd mewn golwg yn ddigonol ar gyfer y Neuadd Snwcer, ac i gadw'r rhai sydd yno yn barod ac i ysgrifennu at y clwb snwcer i'w atgoffa i gadw'r defnydd i lawr.

11. Diweddariad Neuadd Goffa

11.1 Nodwyd fod angen gwneud cais am TAW am y 6 mis cyntaf y flwyddyn ariannol gan fod swm sylweddol yn ddyledus. Nodwyd fod yr arian y bydd y Cyngor Bro yn ei rhoi tuag at y cais yn cael ei ad-dalu gyda thaliad y grant. Nodwyd fod yr Ymgyrch yn disgwyl am bellach gan Gerallt Llewelyn cyn gweithredu.

12. Ceisiadau Cynllunio

12.1 31C170D - Cais llawn i godi 17 Annedd (12 gyda 2 ystafell wely, 4 gyda 3 ystafell wely a 1 byngalo gyda 3 ystafell wely) ynghyd a chreu mynedfa newyddi gerbydau ac i gerddwyr ar dir ger Hen Lon Dyfnia, Llanfairpwll - Derbyn y gwelliannau ond dal pryder am y sefyllfa draenio.

12.2 31C430 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Llys Ifor, Lon Dryll, Llanfairpwll - Dim sylw

12.3 31C175E - Cais llawn i newid defnydd modurdy i annedd ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth yn Llwydiarth, Llanfairpwll Dim sylw

12.4 Cais ar gyfer newid defnydd i Feithrinfa yn Borthwen, Llanfairpwll - Fe wnaeth B. Jones adael yr ystafell tra bydd yr eitem yn cael ei drafod. Cytunwyd bod y Cyngor Bro yn cefnogi'r defnydd mewn egwyddor ond bod yno cryn bryder am y sefyllfa traffic byddai'r defnydd yn ei greu yn y lleoliad. B. Jones yn dychwelyd i'r ystafell.

13. Gohebiaeth

13.1 Un Llais Cymru - Agenda Cyfarfod Cyffredinol 22 Hydref 2015 - H. Huws a G. C. Jones wedi mynychu. Nodwyd fod leuan Williams wedi pwysleisio body Cyngor Sir angen gweithio yn fwy effeithiol ac ar y cyd gyda Chynghorau Cymuned.

13.2 Llythyr Grid Cenedlaethol - Ymgynghoriad yn agored - Wedi trafod ynghynt

13.3 Llythyr Mr Stephen Edwards - Cytunwyd i gynnig y sedd wag iddo. Clerc i gadarnhau mewn llythyr.

13.4 British Red Cross - Apel am arian - Mater i'w gysidro gan Bwyllgor Cyllid

13.5 Cymdeithas y byddar Gogledd Cymru - Apêl am arian - Mater i'w gysidro gan Bwyllgor Cyllid

13.6 Cyngor Sir Ynys Môn - Canfas Blynnyddol 2015 - Hysbyseb i'w roi ar yr hysbysfwrdd

13.7 Llythyr Mr Grahame Spence - Cytunwyd i yrru llythyr o ddiolch iddo, a chopi o'r llythyr i'w yrru i'r cynghorwyr i gyd.

13.8 Swyddfa Archwilio Cymru - Trefniadau archwilio allanol: Ffurflenni blynnyddol 2015-16, 2016-17 a 2018-19 - Derbyn y wybodaeth

13.9 Grid Cenedlaethol - Gwahoddiad i gyfarfod briffio ar 23/10/15. - Derbyn y wybodaeth

13.10 Cyngor Sir Ynys Môn - Adolygiad Rhent Maes Parcio Ty'n Rhos, Llanfairpwll - Derbyn y wybodaeth

13.11 Dyfynbris gan Andre Le Cras am ddrws newydd i'r pafiliwn - A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio i archebu drws pren i'r pafiliwn.

13.12 Llythyr gan glwb bowlio yn gofyn am roi tanciau dwr newydd i mewn - G. Parry yn gadael yr ystafell i drafod yr eitem. A. Jones yn aros i egluro'r rhesymau dros y clwb bowlio am gael tanciau dwr newydd. Cytunwyd i'r gofyniad gael ei gysidro ym Mhwyllgor Cyllid Nesaf.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 24 Tachwedd 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)Dyddiad